

Hawdd ei Ddeall



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol i Gymru

Beth rydyn ni eisiau ei wneud



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan Lywodraeth Cymru. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o 'Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol i Gymru': CRYNODEB (ar gyfer ymgynghoriad).

Mawrth 2021

Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma



Dogfen hawdd ei deall yw hon. Ond efallai y byddwch chi angen cymorth i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu chi.



Efallai bod y geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn anodd eu deall. Rydych chi'n gallu gweld beth mae'r holl eiriau mewn glas yn feddwl ar **dudalen 23**.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Lle mae'r ddogfen yn dweud ni, mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymru**. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

Address: Y Tîm Cydraddoldeb
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y ddogfen, [cliciwch yma](#)

1. Neges gan Mark Drakeford a Jane Hutt.....	4
2. Pam bod angen gwneud newidiadau	5
3. Sut mae'r cynllun wedi cael ei wneud.....	7
4. Sut rydyn ni eisiau i'r dyfodol edrych.....	8
5. Ein prif nodau.....	14
Nodau i Iechyd.....	14
Nodau i lywodraeth leol.....	14
Nodau i arweinyddiaeth.....	15
Nodau i incwm a chyflogaeth.....	16
Nodau i Dai.....	17
Nodau i drosedd, cyfiawnder a thegwch.....	18
Nodau i ofal cymdeithasol.....	19
Nodau i ddiwylliant, celfyddydau a chwaraeon.....	20
Rhai o'n nodau eraill.....	21
Beth sydd yn digwydd nesaf?.....	22
Geiriau anodd.....	23

1. Neges gan Mark Drakeford a Jane Hutt



Mae delio â **hiliaeth** yn fwy pwysig nag erioed.

Mae **hiliaeth** yn meddwl triniaeth annifyr neu annheg o rywun oherwydd o le maen nhw'n dod, eu hiaith, hanes, lliw eu croen, crefydd neu ddiwylliant.



Rydyn ni eisiau i bawb yng Nghymru gael eu trin yn deg a chael cyfle cyfartal mewn bywyd.

Rydyn ni eisiau i hawliau pobl Ddu, Asiaidd a **Lleiafrif Ethnig** (yn fyr lleiafrif ethnig) gael eu parchu.



Pobl **lleiafrif ethnig** ydy pobl sydd yn byw mewn lleoedd lle mae'r rhan fwyaf o'r bobl eraill yn perthyn i wahanol hil.



Rydyn ni eisiau diolch i bawb sydd wedi cymryd rhan yn y cynllun yma hyd yn hyn. Ond rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n feddwl hefyd.

Mark Drakeford, Prif Weinidog

Jane Hutt, Gweinidog Cydraddoldebau

2. Pam bod angen gwneud newidiadau



Mae pobl **lleiafrif ethnig** yng Nghymru yn profi llawer o **hiliaeth**. Ac maen nhw'n aml yn cael eu trin yn annheg a dydyn nhw ddim bob amser yn mwynhau'r manteision mae pobl eraill yn eu mwynhau.



Pan rydyn ni wedi siarad â phobl **lleiafrif ethnig** maen nhw wedi dweud bod angen i newid ddigwydd.



Mae llawer o ffyrdd y mae pobl yn gallu bod yn **hiliol**. Er enghraifft drwy eu:

- Hymddygiad
- Agwedd
- Anwybodaeth



Mae pethau fel hyn yn meddwl nad ydy pobl yn cael eu trin yn gyfartal nac yn deg ac maen nhw'n wynebu rhwystrau dydyn nhw'n gallu gwneud dim amdany'n nhw.



Ac mae'n gallu meddwl bod pobl **lleiafrif ethnig** yn cael eu trin fel pobl o'r tu allan. Neu yn llai pwysig na phobl wyn.

Gwrth-hiliaeth



Mae **gwrth-hiliaeth** yn meddwl cymryd camau i wneud yn siŵr bod pobl yn cael eu trin yn deg.

Mae'n meddwl edrych yn agos ar ein cynlluniau, rheolau a pholisïau i weld eu bod nhw'n deg i **leiafrifoedd ethnig** a gyda manteision i bawb.



Braint pobl wyn



Weithiau dydy pobl wyn ddim yn sylweddoli bod pobl **lleiafrif ethnig** yn cael eu trin yn wahanol. Dydyn nhw ddim yn sylweddoli bod bywyd yn aml yn gallu bod yn fwy hawdd pan rydych chi'n wyn. Hyd yn oed os oes gan berson gwyn lawer o heriau, dydy eu hil ddim yn gwneud pethau yn fwy anodd.

Mae hyn yn cael ei alw yn **fraint pobl wyn**.



Rydyn ni'n credu y bydd gwneud pethau'n wahanol i **leiafrifoedd ethnig** yn gwneud pethau yn fwy teg a gwell i bawb.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae pryderon wedi bod hefyd nad ydy Llywodraeth Cymru yn gwneud digon i ddelio â **hiliaeth**.

3. Sut mae'r cynllun wedi cael ei wneud



Jane Hutt sydd yn edrych ar ôl **Cydraddoldeb** i Lywodraeth Cymru.



Mae hi wedi gofyn am gael gwneud **Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol**.



Mae hi wedi gofyn i athro o Brifysgol Caerdydd, ei enw ydy'r **Athro Emmanuel Ogbonna**, a'r **Fonesig Shan Morgan** o Lywodraeth Cymru, i redeg grŵp am hyn.



Maen nhw wedi rhoi llawer o syniadau gan grwpiau a chyrff eraill at ei gilydd i helpu gyda'r gwaith yma.



Nawr rydyn ni eisiau gwybod beth mae pobl eraill yn feddwl.



Mae angen inni hefyd edrych ar broblemau eraill y mae pobl o leiafrifoedd ethnig yn gallu eu wynebu. Er enghraifft, oherwydd eu bod hefyd yn anabl ac felly yn wynebu hyd yn oed mwy o broblemau.



4. Sut rydyn ni eisiau i'r dyfodol edrych

Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n feddwl am sut y mae'r holl syniadau yma yn gallu cael eu gwella.



Os ydyn ni'n gweithio gyda'n gilydd i leihau hiliaeth erbyn y flwyddyn **2030** fe fydd y pethau yma wedi digwydd:

- Newidiadau go iawn, dim addewidion yn unig.
- Parchu gwahaniaethau pobl.
- Gwrando a gweithredu ar beth mae rhai grwpiau lleiafrif ethnig, yn cynnwys cymunedau **Sipsi, Roma a Theithwyr**, a menywod **lleifarif ethnig** wedi ei ddweud.



Mae cymunedau **Sipsi, Roma a Theithwyr** yn gallu dod o gefndiroedd gwahanol, gwledydd neu ddiwylliannau eraill. Mae rhai yn byw ar safleoedd arbennig ac mae rhai yn symud o le i le.



- Edrych i weld ein bod ni wedi gwneud beth roedden ni wedi ei ddweud y bydden ni'n ei wneud. A chyrrff eraill rydyn ni wedi rhoi arian iddyn nhw.



- Gwneud yn siŵr bod yr holl uwch arweinwyr yn cael yr hyfforddiant cywir am **wrth-hiliaeth**.



- Cydnabod nad ydy pobl Ddu, Asiaidd a **Lleiafrif Ethnig** yn gyfrifol am ddelio â **hiliaeth**.



- Gwneud yn siŵr bod **Deddf Cydraddoldeb 2010** yn cael ei dilyn.



- Gwneud yn siŵr bod cwynion a phroblemau yn cael eu delio â nhw yn gywir a bod pobl yn cael eu clywed.



Erbyn 2030 fe fydd gwasanaethau cyhoeddus ac elusennau a chyrff gwirfoddol wedi:



- Dangos arweinyddiaeth gryf wrth ddelio â **hiliaeth**.



- Dilyn Deddf Cydraddoldeb 2010.



- Helpu i wneud yn siwr bod pobl Ddu, Asiaidd a **Lleiafrif Ethnig** yn cael eu trin yn deg mewn addysg a chyflogaeth a gwasanethau eraill.



- Darparu gwasanaethau sydd yn cydnabod gwahanol anghenion. Er enghraifft, i bobl **lleiafrif ethnig** sydd yn anabl.



- Darparu lle gwaith diogel a chefnogol lle mae pobl **lleiafrif ethnig** yn gallu gwneud yn dda.



- Edrych i weld bod y gwaith yn cael ei wneud.



Erbyn 2030 fe fydd pobl ifanc Du, Asiaidd a **Lleiafrif Ethnig** yn gweld ein bod ni wedi:



- Stopio **trosedd casineb** yn y cyfryngau.

Trosedd casineb ydy aflonyddu neu ymosod arnoch chi oherwydd bob pobl yn meddwl eich bod chi yn wahanol.



- Gweld **Prif Weinidog** Du, Asiaidd, **Lleiafrif Ethnig**.



- Sylwi bod **hiliaeth** yn cael ei alw allan.



- Mae'n amlwg sut mae pobl **lleiafrif ethnig** yn gallu datblygu yn eu gyrfa.



- Gweld athrawon yn delio'n gywir â chwynion am **hiliaeth** a **throsedd casineb**. A'u cymryd nhw o ddifrif.



- Delio â **hiliaeth** mewn chwaraeon a'r cyfryngau.

Erbyn 2030 fe fydd oedolion Du, Asiaidd a **Lleiafrif Ethnig**:



- Ddim yn gorfod dioddef hiliaeth mewn cymdeithas.



- Gweld bod ein holl ffyrdd o fyw yn cael eu clywed a sefyll i fyny drostyn nhw.



- Gweithio gyda'n gilydd.




- Ddim yn poeni am **hiliaeth**.



- Ddim yn gorfod mynd ar orymdaith i gael ein lleisiau wedi eu clywed.



- Derbyn y gwasanaethau cywir ar gyfer anghenion pobl.



- Yn cael eu gweld fel pobl Gymreig.



- Gwybod eu bod nhw'n cael eu recriwtio am eu sgiliau.

5. Ein prif nodau



Dyma rai o'n prif nodau ym meysydd gwaith Llywodraeth Cymru:

Nodau i Iechyd

Mae'r rhain yn meddwl pethau fel:



- Gwneud yn siŵr bod y GIG yn **wrth-hiliol**.



- Staff yn cael eu trin yn gyfartal a theg.



- Y cyhoedd yn cael gofal iechyd cyfartal sydd yn ateb eu hanghenion.

Nodau i lywodraeth leol

Mae'r rhain yn meddwl pethau fel:



- Gwneud yn siŵr bod pobl yn teimlo eu bod nhw'n gallu cymryd rhan.



- Polisiau **gwrth-hiliaeth** da gan awdurdodau lleol i staff.

Nodau i arweinyddiaeth

Mae'r rhain yn meddwl pethau fel:



- Pobl sydd yn gweithio mewn gwasanaethau cyhoeddus yn cynrychioli gwahanol grwpiau mewn cymdeithas.



- Mae gwasanaethau cyhoeddus yn **wrth-hiliol** ac yn gweithio'n galed i wneud yn siŵr bod pobl yn cael eu trin yn gyfartal.



- Gwneud yn siŵr bod rhagor o arweinwyr cymuned Du, Asiaidd a **Lleiafrif Ethnig** yng Nghymru.

Nodau i incwm a chyflogaeth

Mae'r rhain yn meddwl pethau fel:



- Gwneud yn siŵr bod rhaglenni cyflogaeth yn fwy **hygyrch**.

Mae **hygyrch** yn meddwl bod rhywbeth yn gallu cael ei ddefnyddio gan lawer o bobl, beth bynnag ydy eu hanghenion.



- Rhaglenni cyflogaeth ac addysg yn ddiogel a theg. Pobl yn cael eu trin yn gyfartal.



- Delio â phroblemau gyda **hiliaeth**.



- Gwneud yn siŵr bod gwasanaethau yn ateb anghenion pobl sydd yn Ddu, Asiaidd neu **Leiafrif Ethnig**.



- Cefnogi rhagor o bobl o'r grwpiau yma i gymryd rhan.

Nodau i Dai

Mae'r rhain yn meddwl pethau fel:



- Gwneud yn siŵr bod mwy o arweinwyr o grwpiau **lleiafrif ethnig** yn gweithio mewn tai.



- Gwneud yn siŵr bod gwasanaethau tai yn **wrth-hiliol** ac yn trin pobl yn deg ac yn gyfartal.

- Gwneud yn siŵr bod tai yn ateb anghenion pobl gwahanol.



- Gwneud yn siŵr bod digon o safleoedd **Sipsi** a **Theithwyr** yng Nghymru.

Nodau i drosedd, cyfiawnder a thegwch



Mae'r rhain yn meddwl pethau fel:

- Cymru i fod yn wlad **wrth-hiliol**.



- Cefnogi cymunedau i weithio fel bod llai o straen rhwng grwpiau.



- Gwneud yn siŵr bod pobl yn cael eu trin yn deg ac yn gyfartal gan y system cyfiawnder troseddol, dim gwahaniaeth o le maen nhw'n dod.



- I ragor o bobl o grwpiau Du, Asiaidd a **Lleiafrif Ethnig** weithio mewn cyfiawnder troseddol.



- Gwneud yn siŵr bod y gefnogaeth gywir ar gael i fenywod **lleiafrif ethnig** yn arbennig, sydd yn dioddef trais.

Nodau i ofal cymdeithasol

Mae'r rhain yn meddwl pethau fel:



- Gwneud yn siŵr bod yr holl bobl Ddu, Asiaidd a **Lleiafrif Ethnig** yn teimlo'n hyderus am ddefnyddio gwasanaethau cymdeithasol.



- Gwneud yn siŵr bod gan staff mewn gofal cymdeithasol y sgiliau cywir i weithio gyda phobl o wahanol grwpiau.



- Gwneud yn siŵr bod pobl o grwpiau Du, Asiaidd a **Lleiafrif Ethnig** yn gallu gweithio mewn gofal cymdeithasol yn deg ac yn gyfartal.



- Edrych i wneud yn siŵr bod y sector gofal cymdeithasol yn **wrth-hiliol**.

Nodau i ddiwylliant, celfyddydau a chwaraeon

Mae'r rhain yn meddwl pethau fel:



- Gwneud yn siwr bod cyrff cyhoeddus yn dilyn ein cynlluniau i gyrraedd grwpiau **lleiafrif ethnig**.




- Dathlu ein holl wahaniaethau yng Nghymru.



- Bod yn onest am ein hanes.

Rhai o'n nodau eraill



- Cyfathrebu'n dda â phobl o bob cefndir.



- Darganfod y ffordd orau i weithio gyda ac i gyllido cyrff **lleiafrif ethnig**.



- Casglu gwybodaeth sydd yn ddefnyddiol ac yn gymorth am grwpiau **lleiafrif ethnig**.

Beth sydd yn digwydd nesaf?



Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n feddwl, er mwyn cwblhau'r cynllun yma.



Rydyn ni'n anelu at gyhoeddi'r cynllun terfynol ym mis **Medi 2021**.



Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n feddwl erbyn **17 Mehefin 2021**.

Geiriau anodd

Braint pobl wyn

Weithiau dydy pobl wyn ddim yn sylweddoli bod pobl lleiafrif ethnig yn cael eu trin yn wahanol ac yn ddrwg. Dydyn nhw ddim yn sylweddoli bod bywyd yn aml yn gallu bod yn fwy hawdd pan rydych chi'n wyn.

Mae hyn yn cael ei alw yn ffraint pobl wyn.

Cymunedau Sipsi, Roma a Theithwyr

Mae cymunedau Sipsi, Roma a Theithwyr yn gallu dod o gefndiroedd gwahanol, gwledydd neu ddiwylliannau eraill. Mae rhai yn byw ar safleoedd arbennig ac mae rhai yn symud o le i le.

Gwrth-hiliaeth

Mae hyn yn meddwl cymryd camau i wneud yn siŵr bod pobl yn cael eu trin yn deg.

Hiliaeth

Mae hiliaeth yn meddwl triniaeth annifyr neu annheg o rywun oherwydd o le maen nhw'n dod, eu hiaith, hanes, lliw eu croen, crefydd neu ddiwylliant.

Hygyrch

Mae hyn yn meddwl rhywbeth sydd yn gallu cael ei ddefnyddio gan lawer o bobl, beth bynnag ydy eu hanghenion.

Lleiafrif Ethnig

Pobl lleiafrif ethnig ydy pobl sydd yn byw mewn lleoedd lle mae'r rhan fwyaf o'r bobl eraill yn perthyn i wahanol hil ac fel arfer mewn niferoedd llai. Mae'n meddwl pobl Sipsi, Roma a Theithwyr.

Trosedd Casineb

Aflonyddu neu ymosod arnoch chi oherwydd bob pobl yn meddwl eich bod chi'n wahanol.

